## Strategaeth tair blynedd Ofcom ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**• Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion yn yr adran hon? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol.**

Mae'r rhain yn gynigion cadarn ac mae'r ffocws ar feysydd a amlinellir yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn gwneud synnwyr fel blaenoriaeth. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol yma, er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Mae angen edrych yn ofalus ar y gorgyffwrdd sydd rhwng cynhwysiant digidol, llythrennedd digidol a sgiliau digidol. Gall y derminoleg fod yn ddryslyd a pheidio â chael ei deall yn wahanol gan wahanol bobl a sefydliadau.

Gwnaed cryn dipyn o waith yng Nghymru dros y degawdau diwethaf ym maes cynhwysiant digidol, hyder a meithrin sgiliau. Mae meddwl yn feirniadol yn rhan greiddiol o'r gwaith hwn wrth iddo ddatblygu. Dylid cysylltu'n agos â rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y maes hwn yng Nghymru – yn enwedig y Gynghrair Cynhwysiant Digidol (Cymru).

Byddai adnodd penodol yn nhîm Ofcom Cymru yn arwain llawer at wella'r canlyniadau y mae Ofcom eu heisiau, gan fod proffil ymwybyddiaeth ehangach o'r cyfryngau, a rôl Ofcom yn y maes hwn, yn isel iawn yng Nghymru.

Gallai rôl Ofcom fel cynullydd fod yn fwy cynhyrchiol yng Nghymru, gydag adnoddau ychwanegol.

**• Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion yn yr adran hon ar gyfer gweithio gyda llwyfannau? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol.**

Mae'r nod o ymgysylltu â llwyfannau'n ganmoladwy, ond bydd y realiti'n her. Mae 'annog' a 'meithrin' yn awgrymu y bydd y llwyfannau'n agored i ymgysylltu â'r agenda hon. Does dim tystiolaeth o hyn eto.

Roedd rhwydwaith Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau yn arfer bod yng Nghymru flynyddoedd lawer yn ôl, pan sefydlwyd Ofcom am y tro cyntaf. Ofcom oedd yn arwain hyn, gyda mewnbwn uwch swyddogion o randdeiliaid allweddol yng Nghymru, gan gynnwys S4C a BBC Cymru Wales. Yn anffodus, cafodd y rhwydwaith ei ddirwyn i ben ac aeth amlygrwydd Ofcom yn y maes hwn yn llai.

Mae'r dirwedd wedi newid yn ddramatig ers hynny, gyda ffrwydrad y byd ar-lein. Byddai'n werth i Ofcom ystyried a ddylid ailsefydlu'r rhwydwaith hwn, gyda ffocws cryfach ar ddylanwadu ar lwyfannau. Unwaith eto, byddai hyn yn dibynnu ar adnoddau ychwanegol yn nhîm Ofcom Cymru.

**• Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion yn yr adran hon? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw farn a thystiolaeth ynghylch a fyddai Wythnos Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau yn effeithiol.**

Mae'r dyhead hwn yn dda i'w weld – ac mae'r gydnabyddiaeth mai gweithio mewn partneriaeth yw'r unig ffordd o gyflawni'r weledigaeth hon yn gwbl wir yng Nghymru. Fodd bynnag, mae pob sefydliad dan bwysau ariannol a bydd angen cael adnoddau ar gyfer y cynnig hwn os yw'r dyhead i gael ei wireddu. Mae comisiynu darnau o waith penodol yn gam da i'r cyfeiriad iawn – cynyddu ydy'r her.

Mae clymblaid yng Nghymru yn bosibilrwydd gwirioneddol – ond mae angen gwneud gwaith i ganfod y rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli a cheisio adeiladu ar y rhain, eu cryfhau a'u hehangu lle bo hynny'n briodol. Mae natur ddwyieithog Cymru yn golygu bod angen cyflwyno gweithgarwch drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ardaloedd (Gwynedd yn benodol). Mae angen cysylltiad agos â swyddfa Ofcom yng Nghymru yma.

Unwaith eto, mae angen dybryd am adnodd penodol i weithredu fel llais Ofcom yng Nghymru ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae rôl Ofcom fel cynullydd yn allweddol. Ni ddylid tybio y bydd gwaith a wneir yn Lloegr yn treiddio drwodd yn naturiol i Gymru. Mae llawer o arbenigwyr yng Nghymru yn deall anghenion penodol y wlad – mae angen i Ofcom ddod â nhw at ei gilydd os bydd unrhyw gynnydd gwirioneddol yn digwydd yng Nghymru.

Mae angen meddwl yn ofalus am fater wythnos ymwybyddiaeth o'r cyfryngau – os caiff ei chynnal gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru a'i bod yn cael canlyniadau ac effaith amlwg, gallai fod yn adnodd defnyddiol. Ond mae perygl y gallai gymryd llawer o adnoddau y gellid eu defnyddio'n fwy buddiol mewn mannau eraill. Mae ymchwil yn allweddol yma.

**• Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith bosib ar grwpiau penodol o bobl?**

Dim sylw ychwanegol .

**• Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith bosib ein cynigion ar y Gymraeg?**

Mae gofynion deddfwriaeth yn glir ac mae'r asesiad hwn yn adlewyrchu'n gywir fod angen bodloni'r gofynion hyn. Mae sicrhau ymgysylltiad drwy gyfrwng y Gymraeg (ar lafar ac yn ysgrifenedig) yn hanfodol yma.

Mae angen i Ofcom fanteisio ar wybodaeth a phrofiad bywyd siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghymru, a'u hymgorffori mewn unrhyw strategaethau, gwaith ymgysylltu a

gweithgareddau yn maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae angen i hyn gael ei wneud yng Nghymru, gan siaradwyr Cymraeg.
……………..

Karen Lewis
Ar ran Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom

## Ofcom’s three year media literacy strategy

**Consultation questions**

**• Question 1: Do you agree with our proposals in this section? Please explain your reasons and provide any relevant supporting evidence.**

These are sound proposals and the focus on areas outlined in the OSA makes sense as a priority. Engagement with stakeholders is key here, to avoid duplication and maximise impact. The overlap with digital inclusion, digital literacy and digital skills needs to be explored carefully. Terminology can be confusing and not understood differently by different people and organisations.

There has been considerable work done in Wales over the past decades in the field of digital inclusion, confidence and skills building. Critical thinking is at the core of this work as it develops. There should be close liaison with key stakeholders working in this area in Wales – particularly the Digital Inclusion Alliance (Wales).

A dedicated resource in the Ofcom Wales team would considerably improve the outcomes Ofcom is seeking, as the profile of wider media literacy, and Ofcom’s role in this area, is very low in Wales.

Ofcom’s role as a convener could be more productive in Wales, with additional resource.

**• Question 2: Do you agree with our proposals in this section for working with platforms? Please explain your reasons and provide any relevant supporting evidence.**

The aim to engage with platforms is laudable, but the reality will be a challenge. ‘Encouraging’ and ‘fostering’ implies that the platforms will be open to engaging with this agenda. This remains to be seen.

There was a Media Literacy network in Wales many years ago, when Ofcom was first established. This was led by Ofcom, with senior input from key stakeholders in Wales including S4C and BBC Cymru Wales. Unfortunately, the network was disbanded and Ofcom’s visibility in this area diminished.

The landscape has shifted dramatically since then, with the explosion of the online world. It would be worth Ofcom considering whether this network should be re-established, with a stronger focus on influencing platforms. Again, this would rely on additional resource in the Ofcom Wales team.

**• Question 3: Do you agree with our proposals in this section? Please explain your reasons and provide any relevant supporting evidence. We are particularly interested in any views and evidence about whether a Media Literacy Week would be impactful.**

The ambition here is good to see – and the recognition that working in partnership is the only way to deliver on this vision is absolutely true in Wales. However, all organisations are stretched financially and there will need to be resources attached to this proposal if the ambition is to be realized. Commissioning pieces of focused work is a good step in the right direction – scaling up is the challenge.

A coalition in Wales is a real possibility – but work needs to be done to identify the networks already in existence and seek to build on, strengthen and broaden these where appropriate. The bi-lingual nature of Wales means that in certain areas (Gwynedd in particular) activity needs to be delivered through the medium of Welsh. Close liaison with Ofcom's Wales office is needed here.

Again, there is a pressing need for a focused resource to act as the media literacy voice of Ofcom in Wales. Ofcom's role as a convener is key. It should not be assumed that work undertaken in England will naturally filter through to Wales. There are many experts in Wales who understand the particular needs of the nation – they need to be brought together by Ofcom if there is to be any real traction in Wales.

A media literacy week needs careful thinking – if it is done with key stakeholders in Wales and has tangible outcomes and impact then yes it could be a useful tool. But there is a danger that it could take up a lot of resource that could be more usefully expended elsewhere. Research is key here.

**• Question 4: Do you agree with our assessment of the potential impact on specific groups of persons?**

No additional comment .

**• Question 5: Do you agree with our assessment of the potential impact of our proposals on the Welsh language?**

The requirements of legislation are clear and this assessment accurately reflects the need to meet these requirements. Ensuring that there is engagement through the medium of Welsh (both in verbal and written form) is critical here.

The knowledge and lived experience of Welsh speakers living in Wales needs to be harnessed by Ofcom and incorporated in any media literacy strategies, engagement and activities. This needs to be done in Wales, by Welsh speakers.
……………..

Karen Lewis
On behalf of Ofcom's Advisory Committee Wales